PR1305 KeepingChildrenSafeDisclosureLeafletWelsh_Layout 1 07/02/2011 11:53 Page 1



Home Office

# Cadw plant yn ddiogel

## Eich hawl i ofyn

## Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol

Mae yna gynllun yn weithredol yn yr ardal hon sy'n darparu mecanwaith ffurfiol i alluogi'r cyhoedd – p'un ai ydynt yn riant, gofalwr, gwarcheidwad neu barti arall sydd â diddordeb – i wneud ymholiadau ynglŷn ag unigolion sydd mewn cysylltiad â phlant.

Os dengys gwiriadau'r heddlu fod gan yr unigolyn record am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, neu droseddau eraill allai roi'r plentyn mewn perygl, bydd yr heddlu yn ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i ddiogelu'r plentyn, fel arfer y rhiant, gofalwr neu warcheidwad.

## 1. Sut fydd y cynllun hwn yn gwneud mwy i ddiogelu plant? Roeddwn i'n meddwl fod unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant angen cael eu gwirio am droseddau cam-drin plant yn rhywiol?

Mae'r cynllun yn galluogi unrhyw un i ofyn am wybodaeth ynglŷn â phobl sy'n rhan o fywydau plant os ydynt yn pryderu y gallai ef neu hi fod yn droseddwr sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol – er enghraifft, os yw mam sengl eisiau gwybod mwy am ei chariad newydd. Nid yw'n cymryd lle gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

## 2. Sut mae'r cynllun hwn yn helpu?

Amcan y cynllun yw i roi mecanwaith mwy ffurfiol i rieni, gwarchodwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb i wneud cais am wybodaeth ynglŷn ag unigolyn sydd mewn cysylltiad â'u plentyn neu blentyn sy'n agos atynt, os ydynt yn pryderu fod yr unigolyn yn droseddwr sy'n cam-drin plant yn rhywiol. Bydd eich heddlu lleol yn trafod eich pryderon â chi ac yn penderfynu p'un ai yw'n briodol i roi mwy o wybodaeth i chi er mwyn helpu i ddiogelu'r plentyn dan sylw.

Dieithriaid sy'n gyfrifol am tua chwarter y troseddau rhyw a gyflawnir yn erbyn plant. Mae'r rhan fwyaf o blant yn adnabod y sawl sy'n eu cam-drin yn rhywiol. Yn aml maent yn rhywun sydd â rhyw fath o gysylltiad â'r plentyn e.e. aelod o'r teulu, ffrind i'r dioddefydd, neu ffrind i deulu'r dioddefydd. Dyma pam y gallai'r cynllun hwn eich helpu i ddiogelu plentyn yn well rhag niwed.

## 3. Pwy all ofyn am ddatgeliad?

Datgeliad yw'r broses o rannu gwybodaeth benodol am droseddwr gyda thrydydd parti i'r diben o ddiogelu plant.

- gall unrhyw un wneud cais ynglŷn ag unigolyn sydd â chyswllt â phlentyn neu blant sy'n golygu y gallent fod yn berygl i'r plentyn neu blant. Bydd yr heddlu yn trafod y math o gysylltiad sydd gan yr unigolyn hwn â'r plentyn (neu y gallai ei gael) gyda'r ymgeisydd;
- gall unrhyw drydydd parti sydd â phryderon, megis nain neu daid, cymydog neu gyfaill gyflwyno cais, nid dim ond y rhiant, gofalwr neu warcheidwad;
- fodd bynnag, ni fyddai unigolyn sy'n drydydd parti o reidrwydd yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r unigolyn dan sylw gan y gallai fod yn fwy priodol i rywun arall ei dderbyn megis y rhiant, gofalwr neu warcheidwad;
- dim ond unigolyn sydd mewn sefyllfa i allu defnyddio'r wybodaeth i ddiogelu'r plentyn neu blant fydd yn derbyn y wybodaeth.

## 4. Sut mae troseddwyr sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu rheoli fel arfer?

Ledled y wlad, mae'r heddlu'n gweithio ag ystod o asiantaethau eraill i reoli Troseddwyr Rhyw Cofrestredig dan y Trefniadau Aml-asiantaethol er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) .

MAPPA yw'r trefniadau ble mae'r gwasanaethau heddlu, prawf a charchardai yn cydweithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau sy'n codi o gael troseddwyr treisgar a rhyw yn byw yn y gymuned er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Mae'r heddlu eisoes yn datgelu gwybodaeth yn rhagweithiol. Gellir rhoi gwybodaeth sydd ym meddiant asiantaethau MAPPA i unigolyn neu grŵp o bobl er mwyn eu diogelu rhag troseddwr, neu er mwyn iddynt allu diogelu eraill. Er enghraifft, gellid hysbysu staff canolfan hamdden os credir y gallai troseddwr lleol fod yn berygl i'r rhai sy'n defnyddio'r ganolfan. Y gwahaniaeth gyda'r cynllun hwn yw ei fod yn darparu mecanwaith mwy ffurfiol i unrhyw un ofyn am wybodaeth ynglŷn ag unigolyn sydd â chyswllt â phlentyn, ac i'r heddlu ddelio â'r cais hwn. Gallai hefyd eu hysbysu fod troseddwr rhyw cofrestredig mewn cysylltiad â phlentyn neu'n arddangos ymddygiad arall sy'n peri gofid nad oeddynt yn ymwybodol ohono gynt.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae'n bwysig cofio y gall unrhyw un wneud cais i'r heddlu ynglŷn ag unigolyn sydd â chyswllt â phlentyn neu blant.

### Cysylltu â'r heddlu

Mae sawl ffordd i chi gysylltu â'r heddlu.

Gallwch:

- ymweld â swyddfa'r heddlu;
- ffonio'r rhif ffôn ar gyfer galwadau nad ydynt yn alwadau brys (oni bai eich bod yn credu fod plentyn mewn perygl uniongyrchol o gael ei niweidio. Yna dylech ffonio 999);
- siarad ag aelod o'r heddlu ar y stryd.

Efallai y bydd eich heddlu hefyd yn cynnig dulliau eraill o gysylltu â nhw. Byddant yn hysbysebu'r rhain yn lleol.

## Cam Un: Cyswllt cyntaf â'r heddlu

Wedi i chi gysylltu â'r heddlu, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gyda swyddog o'r heddlu neu aelod o staff yr heddlu yn rhoi manylion ynghylch beth sydd wedi ysgogi'ch ymholiad a p'un ai oes gan yr unigolyn gyswllt heb oruchwyliaeth gyda'r plentyn neu blant yr ydych yn pryderu amdanynt.

Bydd hefyd angen i chi roi'ch enw, eich cyfeiriad a'ch dyddiad geni. Yn nes ymlaen, bydd angen i chi ddarparu prawf o bwy ydych chi.

Bydd yr heddlu yn cyflawni ambell wiriad cychwynnol o'u cronfeydd data yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cyflawni asesiad risg cychwynnol.

Pwrpas y gwiriadau hyn yw i'r heddlu sefydlu p'un a oes unrhyw bryderon dybryd.

**Os yw'r heddlu'n credu fod risg i'r plentyn a bod angen ei ddiogelu rhag niwed, byddant yn gweithredu ar unwaith.**

Ni fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu bryd hynny oni bai ei fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r plentyn neu blant ar unwaith.

Ni chyflawnir y gwiriadau tra'ch bod yn bresennol.

## Cam Dau: Cyfarfod wyneb yn wyneb i gwblhau'r cais

Yn ddibynnol ar ganlyniad cam 1, bydd angen i chi gymryd rhan mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Gwneir hyn i ganfod manylion pellach ynglŷn â'r cais er mwyn asesu unrhyw risg, ac mae'n gyfle i chi ddarparu prawf o bwy ydych chi. Dylai hyn gynnwys prawf hunaniaeth gyda llun (fodd bynnag, os nad oes prawf hunaniaeth gyda llun ar gael, bydd yr heddlu yn ystyried mathau eraill o brawf hunaniaeth).

Bydd hefyd angen i chi ddarparu dogfennaeth sy'n dangos eich perthynas â'r plentyn dan sylw (os yn berthnasol). Yn ddelfrydol, bydd angen i chi ddangos dau fath o brawf hunaniaeth (gydag un ohonynt yn brawf hunaniaeth gyda llun os oes un ar gael).
Gall y rhain gynnwys:

- eich pasbort;
- eich trwydded yrru;
- bil gwasanaeth i'ch cartref;
- eich mantolen banc;
- eich llyfr budd-daliadau; neu
- eich tystysgrif geni.

Os yn briodol, i gadarnhau'ch perthynas â'r plentyn bydd angen i chi ddangos un o'r canlynol:

- tystysgrif geni'r plentyn;
- pasbort y plentyn; neu
- lyfr budd-daliadau'r plentyn.

## Cam Dau: parhad

Os yn berthnasol, bydd yr heddlu yn cyflawni gwiriadau manylach ac yn gweithio gydag asiantaethau eraill gan gynnwys Gwasanaethau Plant, MAPPA a'r Gwasanaeth Prawf ac yn cyflawni asesiad pellach o risg yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth newydd a dderbyniwyd.

Byddant yn gweithio mor gyflym â phosibl i gwblhau'r gwiriadau ond, dan rai amgylchiadau prin, efallai y bydd rhai gwiriadau yn cymryd mwy o amser i'r heddlu sydd eu hangen eu derbyn.

Argymhellir mai'r uchafswm amser y dylai gymryd i gwblhau'r ymchwiliad, gan gynnwys datgelu gwybodaeth i'r unigolyn mwyaf priodol, os yw hynny'n berthnasol, yw 45 niwrnod, ond fe allai fod rhywfaint o oedi wedi hyn o ganlyniad i ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr heddlu.

**Bydd yr heddlu yn gweithredu ar unwaith os ystyrir ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad fod plentyn mewn perygl ac angen ei ddiogelu rhag niwed.**

## Cam Tri: Cyfarfod aml-asiantaethol i ystyried datgelu

Bydd yr heddlu ac asiantaethau eraill yn cwrdd i drafod yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi iddynt a hefyd yr wybodaeth y gallant fod wedi ei dderbyn yn sgil y gwiriadau a gyflawnwyd. Penderfynir yn y cyfarfod hwn p'un ai yw unrhyw ddatgeliad yn gyfreithiol, angenrheidiol a chymesur ac a fyddai'n diogelu'r plentyn neu blant rhag niwed.

## Cam Pedwar: Datgeliad posibl

Bydd yr heddlu yn cysylltu â chi unwaith y byddant wedi ystyried yn ofalus a allech chi ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd ganddynt yn eu meddiant i ddiogelu plentyn.

Byddant naill ai'n:

**a.** cysylltu â chi'n bersonol (bydd yr heddlu yn ymweld â chi, yn eich gwahodd i'r orsaf neu'n trefnu man priodol i gwrdd â chi); neu'n

**b.** cysylltu â chi drwy lythyr (dim ond os nad oes gan yr heddlu wybodaeth i'w rhoi i chi fydd hyn yn digwydd), a'ch bod wedi cytuno iddynt gysylltu â chi trwy lythyr yn flaenorol.

### Pa fath o wybodaeth y gellir ei rhoi

Os dengys y gwiriadau fod gan y sawl yr ydych yn holi yn ei gylch record am droseddau cam-drin plant yn rhywiol neu wybodaeth arall sy'n dynodi eu bod yn cyflwyno risg ddifrifol o achosi niwed i'r plentyn, gall yr heddlu ddatgelu hyn i'r sawl sy'n fwyaf abl i ddiogelu'r plentyn. Dylid nodi fod manylion ynghylch euogfarnau blaenorol unigolion yn gyfrinachol ac mai dim ond os yw'n gyfreithiol, angenrheidiol a chymesur fydd yr heddlu yn eu datgelu a hynny er mwyn diogelu plentyn rhag niwed.

Os nad oes gan y sawl y gwnaed ymholiadau amdano/amdani record o droseddau cam-drin plant yn rhywiol ac os nad oes unrhyw wybodaeth arall sy'n dynodi eu bod yn cyflwyno risg ddifrifol o achosi niwed i'r plentyn, ni roddir unrhyw wybodaeth am nad oes dim i'w ddatgelu.

Efallai nad yw'r sawl yr ydych yn holi amdano yn adnabyddus i'r heddlu am droseddau cam-drin plant yn rhywiol neu wybodaeth arall sy'n dynodi eu bod yn cyflwyno risg o achosi niwed i blant **ond** eu bod yn arddangos ymddygiad sy'n peri gofid. Mewn achos o'r fath, bydd yr heddlu yn gweithio gyda chi i ddiogelu'r plentyn ac yn darparu cyngor a chefnogaeth.

## Nodyn pwysig

Dylech fod yn ymwybodol nad yw gwiriadau'r heddlu yn warant o ddiogelwch gan nad yw'r heddlu'n gwybod am bawb sy'n cam-drin plant yn rhywiol heblaw eu bod wedi cael eu harestio neu eu heuogfarnu am gam-drin plentyn yn rhywiol. Bydd yr heddlu'n rhoi cyngor i chi ar sut i ddiogelu plant a sut i adnabod arwyddion o gam-drin mewn plant ac unigolion sydd mewn cyswllt â phlant. Byddant hefyd yn sicrhau'ch bod yn ymwybodol o ba gefnogaeth leol a chenedlaethol sydd ar gael.

## Wedi i chi dderbyn gwybodaeth

Ydw i'n gallu dweud wrth fy nheulu am hyn? Mae wir angen siarad â rhywun arnaf.

Os byddwch yn derbyn gwybodaeth gan yr heddlu dylid ei thrin yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn eich galluogi i ddiogelu'ch plant y rhoddir yr wybodaeth i chi. Ni ddylech rannu'r wybodaeth hon â neb oni bai eich bod wedi siarad â'r heddlu, neu'r sawl a roddodd yr wybodaeth i chi, a'u bod wedi cytuno gyda chi sut ddylid ei rhannu.

Ar yr amod eich bod yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, gallwch:

- ddefnyddio'r wybodaeth i'ch cadw'ch hun ac eraill yn ddiogel;
- ddefnyddio'r wybodaeth i gadw'ch plant yn ddiogel;
- ofyn pa gymorth sydd ar gael;
- ofyn pwy ddylech gysylltu â nhw os credwch fod plant eraill mewn perygl; a
- gofyn am gyngor ar sut i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel.

Efallai y bydd yr heddlu yn penderfynu peidio rhoi'r wybodaeth i chi os ydynt yn credu y byddwch yn ei drafod ag eraill.

Gall yr heddlu weithredu yn eich erbyn os datgelir yr wybodaeth heb eu caniatâd, a gall hynny gynnwys dwyn achos llys sifil neu droseddol. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd (dan Adran 55 Deddf Diogelu Data 1998) i unigolyn 'gaffael neu ddatgelu data personol yn fwriadol neu'n fyrbwyll heb ganiatâd y rheolwr data', sef yr heddlu gan amlaf mewn achosion fel hyn.

**Os na chanfuwyd dim yn y chwiliadau, ond bod hyn wedi gwneud i chi feddwl am ddiogelu'ch plentyn, gallwch weithredu i ddiogelu'ch plentyn neu blant yn y dyfodol.**

Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth a chyngor i chi ar sut i ddiogelu plentyn neu blant a sut i adnabod arwyddion o gam-drin mewn plant ac unigolion sydd mewn cyswllt â phlant. Mae yna hefyd nifer o grwpiau cymorth sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol, sut i adnabod camdriniaeth a sut i weithio gyda'r awdurdodau er mwyn ymyrryd.

Gall yr ymgeisydd hefyd gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r heddlu. Hyd yn oed os nad oes gan rywun record am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, nid yw'n golygu nad yw ef neu hi yn cyflwyno risg posibl ac yn yr un modd, hyd yn oed os nad oes gan yr heddlu wybodaeth i'w rhoi i chi, dylech gymryd camau priodol i ddiogelu'ch plant.

# Llinellau cymorth

## Stop it Now! 0808 1000 900/help@stopitnow.co.uk

Mae Stop it Now! yn **llinell gymorth gyfrinachol** ar gyfer oedolion sy'n pryderu am ymddygiad rhywiol pobl y maent yn eu hadnabod tuag at blant, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr sy'n gofidio am ymddygiad rhywiol eu plant. Mae'r llinell gymorth hefyd yn cynorthwyo unigolion sy'n pryderu am eu meddyliau neu'u hymddygiad rhywiol eu hunain tuag at blant, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sydd angen cymorth gydag achosion anodd.

**Mae'r llinell gymorth gyfrinachol hon yn weithredol o 9yb – 9yh Dydd Llun i Ddydd Iau ac o 9yb – 7yh ar Ddydd Gwener. www.stopitnow.org.uk**

## Llinell Gymorth Diogelu Plant yr NSPCC: 0808 800 5000

**Os ydych chi'n meddwl fod plentyn mewn perygl dybryd, ffoniwch yr heddlu ar 999.**

Os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn neu'ch bod angen cymorth neu gyngor, ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 5000. Gallwn ddarparu cymorth drwy e-bost, gan ymateb o fewn 24 awr. Os ydych yn cysylltu â ni trwy e-bost o Ogledd Iwerddon, anfonwch neges at talk@nspcc.org.uk.

O weddill y Deyrnas Unedig, anfonwch neges at help@nspcc.org.uk

- Ffôn Testun: 0800 056 0566
- Gwasanaeth Llinell Gymorth Asiaidd yn Saesneg: 0800 096 7719
- Bengaleg/Sylehti: 0800 096 7714
- Cymru/Wales: 0808 100 2524
- Gwjwrati: 0800 096 7715
- Hindi: 0800 096 7716
- Pwnjabeg: 0800 096 7717
- Wrdw: 0800 096 7718

## Senarios posibl

### Senario 1:

**"Rwy'n fam sengl ac mae gen i bartner newydd. Dydw i ddim yn gwybod llawer am ei orffennol ac rydw i eisiau gwirio a oes unrhyw beth y dylwn fod yn ymwybodol ohono. Beth alla i wneud?"**

Gallwch ofyn i'r heddlu ymchwilio p'un ai oes gan eich partner record am gam-drin plant yn rhywiol. Os canfyddir bod gan eich partner record am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, ac ystyrir bod yr unigolyn yn risg ddifrifol i'ch plant, bydd yr heddlu yn gweithredu fel fo'n briodol i'ch diogelu chi a'ch plant. Gallai hyn gynnwys datgelu gwybodaeth i chi. Os nad yw'ch ymchwiliad yn datgelu unrhyw record o droseddau cam-drin plant yn rhywiol, ond fod rhesymau eraill sy'n golygu y gallai'r heddlu fod yn pryderu am ddiogelwch eich plant – er enghraifft, os oes gan yr unigolyn record o droseddu treisgar – efallai y bydd yr heddlu yn gweithredu i ddiogelu'ch teulu, a allai gynnwys ystyried datgelu'r euogfarnau. Os yw'r heddlu'n pryderu ar unrhyw adeg am ddiogelwch uniongyrchol eich plant, neu chi, byddant yn gweithredu'n gyflym iawn i'ch diogelu.

## Senario 2:

**"Mae cariad newydd fy merch eisiau gofalu am ei phlentyn o hyd – i'r fath raddau fel nad ydw i'n gweld dim ar fy ŵyr bellach. Rwy'n poeni. Nid yw'n teimlo'n normal. A oes unrhyw beth y gallaf i wneud?"**

Gall trydydd parti sydd â diddordeb megis ffrindiau a theulu hefyd wneud cais i'r heddlu dan y cynllun. Fodd bynnag, os yw gwiriadau'r heddlu'n dangos fod gan unigolyn record am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, neu droseddau eraill allai roi'r plentyn mewn perygl, bydd yr heddlu'n gweithredu'n briodol ond efallai na fyddant yn datgelu dim i chi. Yn hytrach, bydd yr heddlu yn ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i ddiogelu'r plentyn, sef eich merch mwy na thebyg, yn yr achos hwn.

## Senario 3:

**"Dydw i ddim yn hoffi golwg fy nghymydog ac mae'n ddigywilydd tuag ataf. Oes modd i mi ei gwirio?"**

Nac oes, oni bai eich bod yn pryderu am berthynas eich cymydog â phlant penodol. Bydd yr heddlu eisiau gwybod ar ba sail ydych chi eisiau gwirio'ch cymydog, a pha blant y mae ef neu hi mewn cysylltiad â nhw. Mae gan yr heddlu hefyd ddyletswydd i ddarganfod pam y gwneir ymholiad, i sicrhau nad yw'n faleisus.

## C1. Rydych chi'n sôn am weithdrefnau diogelu plant. Ydi hyn yn golygu y gallwch fynd â'm plentyn oddi arnaf?

**A1.** Dim ond dan amgylchiadau prin iawn lle maent yn wynebu risg o niwed difrifol os byddant yn parhau yn yr amgylchedd hwnnw y bydd plant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd. Bwriad y cynllun hwn yw helpu rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr i ddiogelu eu plant yn well. Ni fydd plant yn cael eu cymryd o gartref teuluol os yw'r rhiant, gofalwr neu warcheidwad yn gweithio gyda'r heddlu, y Gwasanaethau Plant ac asiantaethau eraill perthnasol i ddiogelu eu plentyn neu blant rhag unrhyw risg a nodwyd.

## C2. A fydd yr heddlu yn ymchwilio'n fwy trylwyr os oes mwy nag un adroddiad ynglŷn â'r un unigolyn?

**A2.** Mae'r heddlu yn ymchwilio i bob ymholiad yn llawn. Os bydd mwy nag un unigolyn yn holi am rywun penodol, cyflawnir y gwiriadau ymchwilio eto ac efallai y gofynnir cwestiynau ynglŷn â pham fod gwahanol bobl yn gwneud ymholiadau am yr un unigolyn. Fel rhan o'r cynllun, cymerir manylion llawn gan bob ymgeisydd sy'n gofyn i'r heddlu wirio unigolyn penodol. Bydd hyn yn helpu'r heddlu i nodi unrhyw ddefnydd maleisus o'r system.

## C3. A fydd yr unigolyn rwy'n holi amdano yn gwybod eu bod yn cael eu harchwilio?

**A3.** Na fydd, oni bai y gwneir penderfyniad i ddatgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd yr heddlu yn rhoi gwybod i'r unigolyn am y datgeliad oni bai nad yw'n briodol i wneud hynny. Bydd yr heddlu yn trafod hyn â chi.

## C4. A fydd yr unigolyn rwy'n holi amdano yn gwybod mai fi gychwynnodd yr ymchwiliad?

**A4.** Na, cedwir eich manylion yn gyfrinachol oni bai y penderfynir y dylid datgelu gwybodaeth. Mewn achos felly, efallai yr hysbysir yr unigolyn y byddwch yn derbyn gwybodaeth amdanynt ond ni wneir hynny hyd nes y cynhelir asesiad i weld a fyddai'n ddiogel. Bydd yr heddlu yn trafod hyn â chi.

## C5. A fydd yr unigolyn dan sylw yn cael rhyw fath o record oherwydd i mi holi amdanynt?

**A5.** Bydd yr heddlu yn cadw cofnod o'r ymholiad. Fodd bynnag, dylid nodi NAD yw'n record droseddol o unrhyw fath ond bydd yn galluogi'r heddlu i nodi os bydd patrwm yn datblygu parthed unigolyn penodol.

Mae'r cynllun hwn gan y Swyddfa Gartref yn cael ei weithredu gan Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a'i reoli mewn cydweithrediad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg, a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu gan dderbyn cyngor gyda diolch gan yr NSPCC, NCH, Barnados a Sefydliad Sara Payne a Lucy Faithfull: Stop it Now!



PR1305 DisclosureLeafletWelsh_Layout 1 07/02/2011 09:56 Page 2

## Gwybodaeth gan eich Heddlu Lleol

Gallwch wneud cais am ddatgeliad i'r heddlu drwy lythyr, dros y ffôn, ar y wefan, mewn gorsaf heddlu neu drwy siarad â swyddog heddlu. Caiff eich cais ei reoli gan Uned Diogelu'r Cyhoedd y llu, a fydd yn cysylltu â chi unwaith y bydd eich cais wedi ei gofnodi ar gronfa ddata'r llu.

### Manylion Cyswllt Allweddol:

- **Rhif Di-argyfwng: 101**
- **Heddlu Dyfed Powys:**
  www.dyfed-powys.police.uk
  Pencadlys Heddlu Dyfed Powys, Blwch SP 99, Llangynnwr
  Caerfyrddin, SA31 2PF
- **Heddlu De Cymru:**
  www.south-wales.police.uk
  Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen
  Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
- **Heddlu Gwent**
  www.gwent.police.uk
  Pencadlys Heddlu Gwent, Croesyceiliog Cwmbrân, NP44 2XJ
- **Heddlu Gogledd Cymru:**
  www.north-wales.police.uk
  Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Glan-y-Don, Ffordd Abergele
  Bae Colwyn, LL29 8AW

Byddwn angen gwybodaeth amdanoch chi, y plentyn yr ydych chi'n feddwl allai fod mewn perygl a'r person yr ydych yn bryderus yn ei gylch.

Os ydych chi'n credu bod plentyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999 ar unrhyw adeg. Caiff eich pryder ei drin o dan y trefniadau amddiffyn plant sy'n bodoli.

Cyf: 402395 XX/10

SWP Cyfeirnod Argraffu Ref: 1305